**Effaith Ariannol**

1. Mae prifysgolion wedi colli incwm sylweddol ac wedi profi newidiadau sylweddol i fodelau gweithredu o ganlyniad i COVID-19. Mae dadansoddiad o'r wybodaeth a ddarparwyd gan brifysgolion i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn gynnar ym mis Ebrill yn dangos y gallai'r pandemig COVID-19 arwain at ostyngiad mewn incwm o tua £80-£90 miliwn erbyn mis Gorffennaf 2020. [1] Mae hyn o ganlyniad i'r canlynol: colli ffioedd llety; lleihad mewn gwasanaethau masnachol; a'r posibilrwydd o golli ffioedd dysgu, cyllid ymchwil ac incwm arall.

2. Mae gwaith dadansoddi gan CCAUC, yn seiliedig ar senarios ariannol a ddarparwyd gan bob sefydliad ym mis Ebrill, wedi dangos y gallai'r pandemig COVID-19 olygu bod prifysgolion Cymru yn colli incwm o rhwng £200 miliwn a £400 miliwn yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21. [2] [3] Mae hyn yn ddibynnol ar amrediad o ffactorau, gan gynnwys cyfraddau recriwtio myfyrwyr rhyngwladol a domestig, a'r terfynau amser sy'n gysylltiedig â chodi'r protocolau cadw pellter cymdeithasol cyfredol. Mae gan y rhain ddylanwad uniongyrchol ar incwm addysgu, ymchwil a masnachol megis theatrau a chynadledda.

3. Mae'n anodd bod yn ddiffiniol ynglŷn â chyfanswm y golled mewn incwm sydd ar y gweill, a'i heffaith, a dyna egluro'r amrediad ym mharagraff (2) uchod. Fodd bynnag, nid oes neb yn amau y bydd y golled mewn incwm yn sylweddol. Heb gymorth ychwanegol gan y llywodraeth ar gyfer prifysgolion yng Nghymru, byddai'n rhesymol cymryd yn ganiataol y bydd sawl prifysgol yn wynebu penderfyniadau anodd er mwyn osgoi mynd yn fethdalwyr cyn diwedd blwyddyn academaidd 2020/21.

4. Trwy ddefnyddio cyfleusterau benthyca tymor byr presennol, a chyllid CCAUC misol parhaus, disgwylir y bydd gan bob prifysgol arian digonol i barhau i dalu ei dyledion hyd at ddiwedd mis Gorffennaf 2020 o leiaf, ond bydd y lleihad cychwynnol mewn incwm yn cyfyngu ar eu gallu i gynllunio ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21, ac i fod mor gystadleuol â phosibl ar gyfer y garfan newydd o fyfyrwyr yn yr hydref. Fel elusennau, nid oes hawl gyfreithiol gan brifysgolion i fasnachu os nad ydynt yn fusnes gweithredol: mae'n rhaid iddynt reoli eu sylfaen gostau yn seiliedig ar eu hincwm disgwyliedig. Heb rywfaint o gymorth ariannol ychwanegol sy'n benodol i'r sector, gallai fod angen i brifysgolion yng Nghymru ddechrau'r broses o ymgynghori ar ddiswyddiadau a gwneud gostyngiadau yn y sylfaen gostau yn gynnar yn yr haf cyn iddynt wybod eu hincwm gwirioneddol o ffioedd myfyrwyr yn yr hydref. Byddai'r camau gweithredu hyn yn debygol o gael effaith negyddol ar y broses o recriwtio myfyrwyr ac, o ganlyniad, yn lleihau incwm ymhellach ar gyfer blwyddyn academaidd 2020-21.

---

[1] Roedd y sector wedi cael trosiant o £1,628.2 miliwn yn 2018/19, ond diffyg gweithredol o £215.6 miliwn, gan gynnwys addasiadau cyfrifo untro mewn perthynas â chynlluniau pensiwn. Ac eithrio'r rhain, y sefyllfa ariannol sylfaenol oedd diffyg o £13.7 miliwn. Gwelodd rhagolygon ariannol, a luniwyd ym mis Gorffennaf 2019, brifysgolion yn disgwyl naill ai diffygion neu fantoli eu cyllidebau yn fras yn y tymor byr, a disgwyliad y byddai adferiad wrth weithredu argymhellion cyllido'r adolygiad Diamond a gwrthdroad o'r cwymp yn y ddemograffeg o bobl 18 oed sy'n gadael ysgol o 2021 ymlaen.

[2] Mae dadansoddiad gan London Economics ar gyfer yr Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) wedi dangos y bydd diffyg o £100 miliwn yn y sector yng Nghymru yn 2020-21 ac, o ganlyniad, bydd angen i brifysglion Cymru sicrhau 1,000 o ostyngiad yn eu lefelau staffio. Mae'r adroddiad gan London Economics ond yn ystyried colli ffioedd dysgu a grantiau addysgu sy'n berthnasol i fyfyrwyr newydd ac felly mae ond yn darparu darlun rhannol o'r incwm a gollir ac felly mae'n debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel.

[3] Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan raglen Dadansoddi Cyllidol Cymru yng Nghanolfan Llywodraethu Prifysgol Caerdydd ar 15/5/20 yn amcangyfrif, gan ystyried y gostyngiadau a ragwelir mewn lefelau recriwtio myfyrwyr rhyngwladol a chofrestru myfyrwyr domestig, y gallai'r sector golli rhwng £100 miliwn a £140 miliwn yn 2020-21 mewn incwm ffioedd yn unig.

## Yr hyn y mae prifysgolion wedi'i wneud mewn ymateb i COVID-19

5. Er y cyfyngiadau symud, nid yw prifysgolion ar gau, a byddant yn parhau i fynd i'r rhan fwyaf o'r costau, a fydd yn cynyddu mewn rhai achosion, o ganlyniad i weithgareddau sy'n berthnasol i COVID-19 (fel buddsoddi mewn seilwaith digidol er mwyn hwyluso addysgu ac asesu ar-lein ). Gan mai cyflogau sy'n gyfrifol am y mwyafrif o gostau, mae pob prifysgol yng Nghymru wedi ceisio rhoi staff ar ffyrlo lle bônt yn gymwys o dan Gynllun Cadw Swyddi Llywodraeth y DU. Mae'r 20% o gostau cyflog ychwanegol yn cael ei thalu ar hyn o bryd, ac nid yw'r rhan fwyaf o staff academaidd yn gymwys ar gyfer y cynllun gan eu bod yn parhau i weithio ar wasanaethau hanfodol sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus, gan gynnwys addysgu a gwneud ymchwil.

6. Mae prifysgolion hefyd yn archwilio opsiynau taliadau gohiriedig CThEM. Bydd gan bob prifysgol lif arian parod allan net ar gyfer yr holl fisoedd sy'n weddill o flwyddyn academaidd 2019/20, gan ddechrau ym mis Ebrill, ar wahân i fis Mai (pan wnaethant dderbyn 50% o'r ffioedd dysgu a oedd yn ddyledus ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20 gan Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC), a bydd hynny'n arwain at sefyllfaoedd ariannol tynn.

7. Mae opsiynau pellach y mae prifysgolion Cymru yn eu hystyried er mwyn lleihau'r pwysau ariannol y maent yn eu hwynebu yn cynnwys:
    - Lleihau cronfeydd arian wrth gefn;
    - Rhewi'r broses o recriwtio staff newydd;
    - Peidio ag adnewyddu cytundebau dros dro;
    - Rhewi codiadau cyflog a chyflwyno toriadau gwirfoddol ar gyfer aelodau o staff sydd ar gyflogau uwch;
    - Lleihau'r gwariant ar gynnal a chadw ystadau ac adolygu cynlluniau gwariant cyfalaf;
    - Rhoi ystyriaeth i werthu asedau; a
    - Benthyca neu ymestyn cyfleusterau benthyg a gorddrafft gyda'u banciau.

8. Yn ogystal â'r uchod, ac yn absenoldeb cyllid pellach gan y llywodraeth, mae'n debygol y bydd yn rhaid i gostau staff leihau. Mae ailstrwythuro yn gofyn am drafod ag undebau, ac mae'n cymryd amser, ac ni welir ei effaith am o leiaf tri mis a cheir costau diswyddo tymor byr ychwanegol. Mae'n debygol y byddai angen gwneud penderfyniadau ailstrwythuro yn gynnar yn yr haf os nad oes cymorth ychwanegol ar y gweill. Byddai'r rheiny'n digwydd cyn i fyfyrwyr wneud eu penderfyniadau terfynol ynglŷn â'u hastudiaethau yn yr hydref, a byddai'n debygol o gael effaith negyddol ar ba mor ddeniadol yw sefydliadau Cymru i ddarpar fyfyrwyr. Gellir disgwyl y bydd y cylch recriwtio nesaf yn heriol iawn ar gyfer prifysgolion Cymru a bydd unrhyw niwed pellach i'w natur gystadleuol yn gwaethygu eu rhagolygon ar gyfer cynhyrchu refeniw a pharhau i fod yn ddiddyled.

9. Byddai gostyngiad mewn incwm o £300 miliwn[4] ar gyfer prifysgolion Cymru ym mlwyddyn academaidd 2020/21 yn gyfwerth â cholli tua 5,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Byddai'r swyddi hyn yn gyfuniad o ddarlithwyr, ymchwilwyr, technegwyr a staff cymorth proffesiynol a byddent yn colli profiad ac arbenigedd o ganlyniad. Byddai'r rolau hyn yn anodd i'w llenwi pe byddai cyllid yn cyrraedd yn hwyrach yn y flwyddyn. Gan fod llawer o swyddi mewn prifysgolion yn rhan amser, byddai'r nifer gwirioneddol o ddiswyddiadau staff lawer yn uwch (ynghyd ag effaith anghymesur o bosib ar rai

[4] Ffigur cyfartalog yn seiliedig ar amcangyfrif o'r incwm a gollir rhwng ystod o £200 a£400 miliwn

grwpiau gwarchodedig), a byddai effaith sylweddol ar economi Cymru wrth i rai ardaloedd golli rhan sylweddol o'r sylfaen gyflogaeth leol.

10. Yn ogystal, byddai prifysgolion yn ceisio cyfuno eu portffolios addysgu ac ymchwil. Byddai meysydd pwnc sydd â sylfaen gostau fawr a niferoedd llai o fyfyrwyr yn gyffredinol o dan y bygythiad mwyaf o ran torri costau. Mae'r rhain yn amrywio o un sefydliad i'r llall, ond gallant gynnwys amaethyddiaeth, gwyddorau ffisegol, a meysydd pwnc STEM eraill lle bydd sgiliau ac ymchwil yn hanfodol i'r broses o adfer yr economi ar ôl COVID-19. Byddai unrhyw grebachiad o'r fath yn digwydd ar yr adeg waethaf posibl ar gyfer prifysgolion Cymru. Rhagwelir y bydd y galw domestig am addysg uwch yn tyfu'n gyflym o 2021 ymlaen, a gallai unrhyw ddirwasgiad ar ôl COVID-19 olygu y gallai'r galw hwnnw fod hyd yn oed yn fwy. Bydd angen i brifysgolion gael gallu addysgu a chyfleusterau o ansawdd uchel er mwyn bodloni'r galw hwn yn yr hirdymor ac er mwyn parhau i allu cystadlu â sefydliadau yng ngweddill y DU ac yn rhyngwladol.

11. Gan ystyried yr oedi sylweddol nes y caiff unrhyw arbedion cost eu gwireddu o waith ailstrwythuro, bydd angen i brifysgolion gael cymorth i gynnal eu hylifedd yn ystod 2020/21 ac i barhau i fod yn gystadleuol yn ystod cylch recriwtio 2020. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau posibl gan rai prifysgolion i'r Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnesau Mawr yn sgil y Coronafeirws (CLBILS) neu'r Cyfleuster Cyllido Corfforaethol COVID-19 (CCFF), ac unrhyw fenthyciadau eraill, ymyrraeth gan y llywodraeth neu opsiynau ail-gyllido. Bydd ailbroffilio taliadau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr hefyd yn helpu i sicrhau hylifedd parhaus yn yr hydref. [5]

## Ansolfedd sefydliadol

12. Os byddai sefydliad yn mynd yn fethdalwr, byddai'n arwain at golli nifer sylweddol o swyddi, i'r rheiny a gyflogir gan y sefydliadau ac eraill yn y cadwyni cyflenwi, a'r rheiny sy'n dibynnu ar wariant gan fyfyrwyr. Ni fyddai myfyrwyr yn gallu cwblhau eu hastudiaethau ac mae'n anochel y byddent yn ceisio iawndal. Byddai dyledion ariannol, gan gynnwys rhwymedigaethau cyllid pensiynau, yn crisialu ar unwaith, a byddai asedau prifysgolion yn trosglwyddo i berchenogaeth credydwyr. Amcangyfrifir y byddai cost methiant anrhefnus ar gyfer prifysgol fach hyd yn oed, yn fwy na £30 miliwn. Ar gyfer y rhan fwyaf o brifysgolion Cymru, byddai'r gost yn sylweddol uwch.

13. Byddai sefydliad sy'n chwalu mewn modd anrhefnus yn tarfu'n sylweddol ar fyfyrwyr. Byddai disgwyl i'r llywodraeth gefnogi myfyrwyr i ddod o hyd i ddarparwyr amgen, a thalu'r costau o ganlyniad i hynny. Byddai'r costau hyn, ynghyd â'r effaith ar gadwyni cyflenwi a'r economi ehangach, yn fwy na chost cefnogi'r sector yn y tymor byr er mwyn osgoi'r tarfiad.

## Casgliad


14. Mae sefydliadau'n cydnabod bod dychwelyd i sefyllfa 'normal' yn annhebyg, a bod yn rhaid iddynt baratoi am sylfaen gostau sydd wedi'i haddasu nad yw'n cymryd yn ganiataol y bydd recriwtio rhyngwladol yn cael ei adfer ar unwaith. Bydd cymorth i'r hirdymor yn galluogi'r sector i drawsnewid i fodelau busnes a ffyrdd o ddarparu'r 'normal newydd'. Ni fydd yn ddigon i lenwi bylchau ariannol drwy ailosod yr incwm a gollwyd yn unig. Mae CCAUC yn herio'r sector i fynd i'r afael ag effaith COVID-19 mewn ffordd sy'n arwain at ffyrdd newydd o wneud busnes, er enghraifft modelau dysgu cyfunol newydd a buddsoddiad mewn seilwaith digidol er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar yr ystadau campws. Bydd methu â sicrhau cymorth ychwanegol yn

[5] https://llyw.cymru/datganiad-polisi-addysg-uwch-coronafeirws

arwain at berygl o ansolfedd sefydliadol ar y gwaethaf, a sector addysg uwch sydd wedi crebachu i raddau helaeth ar y gorau, gyda channoedd, os nad miloedd o swyddi yn cael eu colli a gallu sylweddol is i ddarparu ar gyfer anghenion Cymru, fel y mae'r Atodiad canlynol yn ei ddangos.

**Atodiad A**
**Sicrhau gwerth am arian – pwysigrwydd prifysgolion Cymru**

1. Yn 2018/19, cofrestrwyd 132,000 o fyfyrwyr ym mhrifysgolion Cymru;[6] roedd 53% o'r rhain yn dod o Gymru, 31% yn dod o weddill y DU, ac 16% yn dod o'r UE a thramor. Mae myfyrwyr yn gwneud cyfraniad economaidd sylweddol fel defnyddwyr ar draws Cymru (amcangyfrifwyd, mewn astudiaeth ddiweddar ar gyfer Prifysgolion Cymru, fod cyfanswm y gwariant gan fyfyrwyr i ffwrdd o gampws y brifysgol bron yn £1.7 biliwn yn 2015/16)[7].




2. I'r gwrthwyneb, astudiodd 31,000 o fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru mewn lleoedd eraill yn y DU. Mae dibyniaeth prifysgolion Cymru ar recriwtio o'r tu allan i Gymru, a'r posibilrwydd y gall myfyrwyr o Gymru astudio y tu allan iddi, yn golygu bod angen i brifysgolion Cymru barhau i fod yn gystadleuol ar lefel y DU ac yn fyd-eang er mwyn parhau i fod yn gynaliadwy.

3. Mae prifysgolion yn tanategu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yng Nghymru, drwy hyfforddiant, datblygiad proffesiynol parhaus a gweithgareddau ymchwil. Mae prifysgolion Cymru'n hyfforddi llawer o'r gweithwyr proffesiynol ym maes meddyginiaeth, a meysydd cysylltiedig, sy'n gweithio ym mhroffesiynau GIG Cymru, neu sy'n athrawon, yn weithwyr cymdeithasol, neu'n gweithio yn un o'r proffesiynau eraill, gan gynnwys nifer cynyddol o addysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg yn y meysydd hyn ac eraill. Mae'r galw am y cyrsiau hyn yn debygol o gynyddu. Mae prifysgolion yn cyflenwi gweithwyr medrus a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n sylfaen i'r economi ehangach yng Nghymru.

4. Mae ymchwil ac arloesedd mewn prifysgolion yn cefnogi economi Cymru ac yn helpu i frwydro yn erbyn COVID-19. Amlygodd yr Adolygiad Reid diweddar bwysigrwydd cynyddu'r cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod prifysgolion Cymru'n fwy cystadleuol o ran dod â grantiau sydd ar gael i'r DU gyfan i mewn i Gymru. Roedd yr adolygiad yn argymell y dylid cynnal dyraniad cyllid ymchwil sy'n gysylltiedig ag ansawdd CCAUC o £71 miliwn, mewn termau real (prisiau 2016), cyflwyno cyllid arloesi newydd o £25 miliwn y flwyddyn, fel a gynigiwyd yn yr adolygiad Diamond, ac, yn ogystal, creu Cronfa Dyfodol Cymru newydd o £30 miliwn y flwyddyn ar gyfer buddsoddi mewn ymchwil, a Chronfa Fuddsoddi Dewi Sant ar gyfer gweithgareddau

---

[6]Gan gynnwys Y Brifysgol Agored yng Nghymru a myfyrwyr addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

[7] http://uniswales.ac.uk/media/UNI010-Economic-Impact-Report_FINAL.pdf

arloesi yng Nghymru gwerth £35 miliwn yn flynyddol gan dyfu i fwy na £100 miliwn neu fwy ar ôl Brexit. Mae COVID-19 wedi creu peryglon sylweddol ar gyfer ffynonellau incwm ar gyfer ymchwil ac arloesedd oddi wrth fusnesau a sefydliadau elusennol, sydd eto'n amlygu pa mor hanfodol bwysig yw cynnal buddsoddiad cyhoeddus yn y maes hwn.

5. Mae prifysgolion yn gyflogwyr mawr. Maent yn un o'r ffynonellau mwyaf o gyflogaeth mewn lleoedd fel Aberystwyth (1,410 o swyddi cyfwerth ag amser llawn) a Bangor (1,565 o swyddi cyfwerth ag amser llawn, a byddai colli swyddi yn y prifysgolion hyn yn debygol o gael effaith andwyol ar yr economi leol, na fyddai modd ei gwrthdroi o bosibl. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae'r sector addysg uwch yn gyfrifol am fwy na 7.5% o'r gyflogaeth leol. Cyflogodd prifysgolion Cymru 17,295 o staff cyfwerth ag amser llawn yn uniongyrchol yng Nghymru yn 2018/19, ac amcangyfrifir eu bod yn cynnal 49,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn yr economi ehangach, sy'n gyfwerth â 3.5% o holl gyflogaeth Cymru yn 2015 [8].

6. *Amcangyfrifon CCAUC o nifer y swyddi a gollir yn uniongyrchol o ganlyniad i bob 10% o ostyngiad mewn incwm prifysgolion* [9]

| | |
|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | 148 o swyddi cyfwerth ag amser llawn |
| Prifysgol Bangor | 294 o swyddi cyfwerth ag amser llawn |
| Prifysgol Caerdydd | 943 o swyddi cyfwerth ag amser llawn |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 190 o swyddi cyfwerth ag amser llawn |
| Prifysgol Abertawe | 700 o swyddi cyfwerth ag amser llawn |
| Prifysgol De Cymru | 365 o swyddi cyfwerth ag amser llawn |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 234 o swyddi cyfwerth ag amser llawn |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | 73 o swyddi cyfwerth ag amser llawn |

[8] http://uniswales.ac.uk/media/UNI010-Economic-Impact-Report_FINAL.pdf

[9] Mae'r holl ffigurau'n seiliedig ar incwm gwirioneddol prifysgolion yn 2018/19 a chyfartaledd cyflogau staff amser llawn yn 2018/19